

Cofion

- Parhawn i gofio am Bob Davies (Llanfair) sy'n cael gofal yn Ysbyty Llandudno. Cofiw'n hefyd am Liz Pritchard (Llanefydd) gafodd anffawd a thorri ei garddwrn y penwythnos diwethaf, a hefyd Johnnie Roberts (Llansannan) a Lloyd Jones (Groes) – y ddau wedi dod adre o'r ysbyty erbyn hyn. Dymunwn adferiad llwyr iddynt wrth inni eu codi hwy, a phawb sydd mewn angen, gerbron Duw.
- Cofiw'n hefyd am y rhai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ddiweddar, a chyflwynwn hwythau yn dyner i ofal yr Arglwydd. Gweddiwn y bydd pawb sy'n galaru am anwyliaid yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Ar osod

Tŷ 2 lofft yn Llansannan gyda gwres canolog oel, a thân agored.
Am fwy o fanylion, cysylltwch â Rhys Dafis (01745) 870362 / rhysdafis@aol.com

I ddod

- **CYRRAEDD CENHEDLAETH GOLL** – Cynhadledd undydd dydd Sadwrn, Mawrth 8fed o 9.45-4.15 yn Ysgol y Berwyn, Y Bala ar gyfer pawb sy'n ymwneud neu sydd â diddordeb mewn gwaith ieuencid, gwaith plant, ysgol a chyrraedd teuluoedd. Prif Siaradwr: Mark Griffiths (awdur 'One Generation from Extinction').
- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – "Taflu'r garreg gyntaf" gyda Joey G. Cyfarfod i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mawrth 10fed am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Cefn Berain, Mawrth 13eg, am 7.00 yng nghwmni'r Parch. Eirlys Gruffydd fydd yn siarad am "Ffynhonnau".
- **LLANW** – gŵyl Gristnogol i'r teulu cyfan yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain-25ain i ddathlu'r atgyfodiad. Mae croeso i bawb, plant, teuluoedd, myfyrwyr, paru a phobl sengl o bob oed! Mae croeso cynnes i'r di-Gymraeg ac i ddysgwyr; bydd offer cyfieithu ar gael. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.llanw.org
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Nolgellau dydd Mercher, Ebrill 30ain. Mwy o fanylion i ddilyn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 23^{ain} Chwefror 2014

Darlleniad y Dydd

Galatiaid 1:6-10

(BCND tud.206 / BCN: tud.188)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso i chwi i oedfaon y dydd. Mae'n parhau'n aeafol ond gobeithio y cewch brofi croeso gwresog heddiw wrth gyd-addoli ar draws y Fro. Diolch am gael gweld yr haul o dro i dro! Diolchwn i'r Arglwydd am bob gofal sydd trosom ac am gael profi cefnogaeth ein cyd-Gristnogion yn ein bywydau o ddydd i ddydd.

Tybed faint ohonoch sy'n cofio Dr Emyr Wyn Jones, Llety'r Eos? Meddyg enwog, a dyn eang ei diddordebau ydoedd, ac fe brynais lyfr o'i eiddo yr wythnos o'r blaen sef "Ysgubau'r Meddyg" (Llyfrau'r Faner; 1973). Yr hyn a'm denodd oedd cysylltiad yr awdur hefo Bro Aled ond cefais bleser ychwanegol wedi imi agor cloriau'r llyfr ar ôl dod adre. Ynddo mae erthyglau am Enlli ac un hanes diddorol am gerdd yn olrhain hanes llongdrylliad yn Enlli yn 1822. Awdur y gerdd ydi Ieuan Lleyrn. Yn ôl yr hanes a gofnodir gan Emyr Feddyg, cafodd y cwch ei ddryllio mewn storm enbyd wrth gyrraedd y Cafn, sef porthladd syml Enlli. Yn wir, roedd y cwch yng ngheg y porthladd nepell o'r lan pan chwipiodd y gwynt ef ar y tonnau mawrion a'i ddryllio ar y creigiau. Collwyd chwech o ddyddion.

Rwyf wedi teithio lawer gwaith i mewn at y lan yn Enlli. Colin wrth y llyw a'r môr yn dawel fel arfer ond gallaf yn hawdd ddychmygu'r perygl. Lle diogel ydi porthladd i fod, ond yn hanes y cwch yn y gerdd, porth peryglus ac angeuol oedd.

Mae'r Beibl yn ein dysgu i bwysu am ddiogelwch yn y lle cywir. Fe all pethau weithiau edrych yn ddiogel ond a fedrant ddal y storm? Mae hyd yn oed y pethau crefyddol sy'n edrych fel y gwir yn gallu twyllo. Dyma ydi rhybudd Paul yn y darlleniad heddiw. Nid oes Efengyl arall meddai. Un Efengyl sydd, felly, a dim ond yr Efengyl honno sy'n borthladd diogel i ni yn wyneb storm angau a thragwyddoldeb. Mae Paul wedi gweld yr Efengyl hon ar waith ac yn hollol hyderus yn ei grym. "Gallu Duw ydi hi ar waith er iachawdwriaeth i bawb sy'n credu" medde fo mewn lle arall. (Rhuf.1:16)

Mewn byd mor ansicr, mae'n rhan o gariad Duw tuag atom ei fod wedi gwneud yn glir lle mae'r diogelwch yma ar gael i ni. Y mae ein diogelwch, wrth gwrs yn yr Arglwydd Iesu – yn ei Berson ac yn ei waith. Dyma ydi Efengyl ein hachubiaeth yn y storm – y newyddion da am Iesu yn marw, yn ôl yr Ysgrythurau; ei gladdu a'i gyfodi yn ôl yr Ysgrythurau; ei ymddangosiad i Pedr a'r disgyblion eraill (1 Cor. 15: 3-5). Rhown ein ffydd yn y gwirionedd yma am Iesu ac fe fydd fel bwrw angor i'r môr yn ein profiad!

Darlleniad Wythnos Nesaf

Job 39:26-30 (BCND tud.487 / BCN: tud.445)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher
lau • **Adnabod – Grŵp Elen** yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
• **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener –
Sul • **Penwythnos Ieuentid** yng Ngholeg y Bala. Pris y penwythnos fydd £60 ond i bob person ifanc o'r Ofalaeth fydd yn mynd yno, bydd yr Ofalaeth yn rhoi gostyngiad o £10 a bydd yr Henaduriaeth hefyd yn cyfrannu £10, ac felly'n lleihau'r gost yn sylweddol. I archebu lle, anfonwch eich ffurflen, ynghyd â £10 o flaendal i Goleg y Bala, mor fuan â phosib. Cysylltwch â Rhodri i gael ffurflen neu fwy o fanylion.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn Festri Capel Tegid, Y Bala. (Paned am 10.00, y darlithoedd o 10.30 – 4.00.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Aneurin a Rhodri yn arwain adolygiad o'r gyfres ar y Salmau.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac i'r oedolion yn unig yng Nghefn Meiriadog am 10.30.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Llanfair am 10.00 (croeso i'r dynion hefyd!) a bydd yr Ysgol Sul am 11.00. Yn yr un modd, cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yng Nghefn Meiriadog am 10.30.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun Cyfarfod ar gyfer aelodau Eglwys Hiraethog am 7.30 yn y Granar, Llansannan.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Nhanyfron am 2.00 a bydd Cyfarfod Blynyddol yr eglwys yn dilyn yr oedfa.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Teulu Tan y Graig yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang ym Mheniel am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang yn Saron hefyd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol yn Groes am 2.00 a chynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol yng Nghapel Henllan am 2.00 dan arweiniad y Parch. Tom Williams. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 2.00, a bydd Ysgol Sul yn y ddwy eglwys am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.